

Cyfarfod:	Bwrdd Pensiwn
Dyddiad:	12/10/2026
Teitl:	DATGANIADAU BUDDION BLYNYDDOL 2025/26 (RHWYMEDIGAETH MCCLOUD)
Awdur:	Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau
Pwrpas:	Er gwybodaeth yn unig

1. Pwrpas

Rhoi sicrwydd i'r Bwrdd yn dilyn gohebiaeth ddiweddar gan y Rheoleiddiwr Pensiynau i aelodau'r Bwrdd Pensiwn ynglŷn â chynnwys gwybodaeth unioni McCloud mewn Datganiadau Buddion Blynyddol (DBB).

2. Cefndir

Mae'r Rheoleiddiwr Pensiynau wedi atgoffa Byrddau Pensiwn o'r angen i sicrhau:

- Bod gwybodaeth am wasanaeth adferadwy wedi'i chynnwys yn Natganiadau Buddion Blynyddol 2025/26 lle bo hynny'n berthnasol.
- Caiff datganiadau eu cyhoeddi erbyn y dyddiad cau statudol sef 31 Awst 2026.
- Mae unrhyw doriadau yn cael eu hadrodd yn briodol.
- Mae aelodau'n derbyn cyfathrebiadau clir.

3. Sefyllfa Cronfa Bensiwn Gwynedd

Gall swyddogion gadarnhau:

- Cyhoeddwyd pob Datganiad Buddion Blynyddol ar gyfer 2025/26 erbyn y dyddiad cau statudol, sef 31 Awst 2026.
- Cynhwyswyd gwybodaeth am unioni McCloud ar gyfer yr holl aelodau perthnasol.
- Cwblhawyd gwiriadau dilysu data a sicrhau ansawdd cyn eu cyhoeddi.
- Darparwyd cyfathrebiadau priodol i aelodau.
- Ni chododd unrhyw achosion o dorri gofynion statudol mewn perthynas â darparu gwybodaeth am wasanaeth adferadwy ac, felly, nid oedd angen cyflwyno adroddiad torri rheolau.

4. Casgliad

Gall y Bwrdd gymryd sicrwydd bod Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi cydymffurfio â'r gofynion statudol sy'n ymwneud â chynnwys gwybodaeth unioni McCloud yn y Datganiadau Buddion Blynyddol ar gyfer blwyddyn y cynllun 2025/26 ac wedi bodloni'r disgwyliadau a amlinellwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau.

5. Argymhelliad

Gofynnir i'r Bwrdd nodi cynnwys yr adroddiad hwn.